

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 11eg Mai, 2021 7.30pm yn Neuadd Felinfach.

Cyn dechrau'r cyfarfod argoffwyd bawb am reolau cynnal cyfarfodydd mewn neuaddau pentref a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn weithredol o'r 3ydd o Fai 2021. Cynhaliwyd y cyfarfod gyda'r holl weithdrefnau a phrotocolau isod ar waith.

- Gosod bordydd a chynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr.
- Gwisgo masg trwy gydol y cyfarfod.
- Darparwyd hylif dwylo ar bob ford
- Cadwyd y sesiwn yn gryno

1. PRESENNOL

Cynghorwyr : Gerwyn Owen (Cadeirydd), Glyn Davies, Johnny Davies Lyn Williams, Alan Henson, Haf Hughes Daniel Evans, Hywel Ifans, Lynford Thomas

2. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Harry Williams, Owen Llywelyn

3. DATGELU BUDDION PERSONOL - Dim i'w dateglu

4. PERSONOL.

Cydumdeimlwyd â'r Cyng. Daniel Evans ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion 13eg Ebrill, 2021. Cynigiwyd yn gywir gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng Alan Henson

6. MATERION YN CODI

8.1 Calonnau Cymru. Cafwyd gwybodaeth bod y trydanwr yn bwriadu rhoi'r diffibriliwr yn ei le bore 'fory. Yn sgil y drafodaeth hon, **penderfynwyd** y dylid cymryd golwg ar diffibriliwr Dihewyd i sicrhau bod y padiau a'r batri yn gyfredol.

11.i Sbwriel. Ni chafwyd ymateb i'r ail lythyr a anfonwyd at Mr. Gerwyn Jones. **Penderfynwyd** cysylltu eto.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad byr gan Y Cyng. Lynford Thomas a bu'n son bod gwaith y Cyngor yn ail-ddechrau drannoeth yn dilyn cyfnod y purdah. Mae'r cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir am y tro a bydd trafodaeth yn digwydd yn fuan i edrych ar sut y mae'r Cyngor yn mynd i weithredu wrth baratoi at ddechrau'r daith mas o Covid.

8, CYLLID

- i. Tâl y Clerc am fis Mai £195.50
- ii. Taliad Cynhadledd SLCC £45.00+ TAW (siec o £54.00)
- iii. Taliad Zurich ££619.81
- iv. Taliad Gwyn Jones yr Archwilydd Mewnol £150.00
- v. Derbyniwyd Praesept y chwarter cyntaf ar 30/3/2021

7. GOHEBIAETH

Dim gphebiaeth

8. CYNLLUNIO.

Ni dderbyniwyd ceisiadau cynllunio i'w hystyried.

10. UNRHYW FATER ARALL

- I. Mae un o drigolion Temple Bar wedi agor bwch ar ddarn o dir gyferbyn â Garej Garlyn. Awgrymodd y Cyng. Dan Evans y dylid cadw golwg ar y sefyllfa.
- II. Yn dilyn sgwrs am ddarpariaeth ddiffygiol gwasanaeth Meddygfa Tanyfron, Aberaeron a godwyd gan Y Cyng. J. Davies, **penderfynwyd** yn unfrydol ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Hywel Dda i dynnu sylw at ein pryderon am y nifer o feddygon a'r effaith mae hyn yn cael ar y gwasanaethau ehangach.
- III. Cyflwynwyd cais gan Y Cadeirydd ar i'r aelodau roi ystyriaeth i sefydlu Gwobr Cyflawniad Gwerthfawr Cymunedol i'w gyflwyno i rywun sydd wedi gwneud gwaith da neu rywbeth arbennig am ddim yn y gymuned. **Penderfynwyd** ei drafod yn y cyfarfod nesaf.
- IV. Yn dilyn cais gan y Cyng. Lynford Thomas penderfynwyd estyn gwahoddiad i aelod o Weithgor Dyffryn Aeron i ddod i wneud cyflwyniad am y prosiect yn y cyfarfod nesaf, neu gyfarfod mis Gorffennaf er mwyn gwneud penderfyniad ar sut orau i symud ymlaen â'r prsiect cymunedol.

11. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 8fed Mehefin. Lleoliad i'w gadarnhau

